



## 1. MEINI PRAWF CYMHWYSEDD

Byddwch yn cael eich asesu'n awtomatig, nid eich dyfarnu, ar gyfer y fwrsariaeth **os ydych yn bodloni'r holl** ofynion canlynol:

- A. Rhaid i chi gael eich ystyried **yn fyfyrwr Cartref** at ddibenion talu ffioedd.
- B. Rhaid i chi fod **yn fyfyrwr newydd ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd, yn gwneud cais drwy UCAS, ac yn dechrau ar gwrs israddedig llawn amser ym mlwyddyn un neu ar lefel sylfaen sy'n dechrau yn 2023. Rhaid i Brifysgol Metropolitan Caerdydd fod yn Brifysgol Dewis Cadarn ar eich cais UCAS erbyn 30 Mehefin 2023** Efallai y byddwch hefyd yn gymwys os byddwch yn dechrau ar eich ail neu drydedd flwyddyn o gwrs masnachfaint Prifysgol Metropolitan Caerdydd (e.e. HND neu gwrs gradd Sylfaen mewn darparwr arall), gan ei fod yn cynrychioli eich tro cyntaf yn bresennol ar gampws Prifysgol Metropolitan Caerdydd.
- C. **Rhaid i'ch cyfeiriad parhaol fod mewn ardal sydd â chyfraddau cyfranogiad isel mewn Addysg Uwch.\*** Gallwch wirio eich cyfeiriad drwy ddefnyddio [Gwiriwr Meini Prawf](#) Prifysgol Metropolitan Caerdydd sy'n gofyn i chi roi eich oedran a'ch cod post. Bydd y cyfeiriad yr ydych wedi'i ddefnyddio i gofrestru gyda'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr yn cael ei ddefnyddio yn eich asesiad cymhwysedd. Rhaid i chi ddefnyddio'r un cod post wrth gofrestru ar gyfer Cyllid Myfyrwyr â'r cod post rydych wedi'i ddefnyddio i gofrestru gydag UCAS.
- D. **Rhaid i incwm eich cartref fod yn llai na £30,000:**
  - I. Er mwyn ein galluogi i wirio incwm eich cartref, **rhaid i chi fod wedi cofrestru gyda Chyllid Myfyrwyr Cymru neu Loegr fel ymgeisydd 'Prawf Modd' a chael asesiad wedi'i gwblhau gyda Chyllid Myfyrwyr erbyn 31 Awst 2023.**
  - II. Yn ogystal, rhaid i chi a'ch noddwr(wyr) (e.e. eich rhiant/rhieni) roi incwm/manylion ariannol cartref **'Caniatâd i Rannu'** fel rhan o'ch cais Cyllid Myfyrwyr bob blwyddyn academiaidd. Os na chyrrhaeddir y meini prawf uchod, ni fyddwch yn cael eich ystyried ar gyfer y fwrsariaeth.
  - III. Ni ellir dilysu incwm aelwydydd drwy unrhyw ddull arall na'r rhai a restrir uchod (e.e. nid drwy ddarparu P60/P45, dogfennau treth ac ati).

\*Rydym yn ddibynnol ar asiantaethau allanol er mwyn diweddarau'r data hwn a gall y data hwn newid. Ar hyn o bryd, mae codau post wedi'u categoreiddio yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2019, systemau codio POLAR4 Ifanc, ac Adult HE 2011. Darparwyd y data gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ym Mai 2023.

Bydd eich cymhwysedd ar gyfer y dyfarniad Bywyd Astudio yn cael ei **asesu bob blwyddyn academiaidd yn erbyn y telerau ac amodau** a byddwch yn cael e-bost bob blwyddyn yr ydych yn gymwys ar gyfer y cynllun.

## 2. DYRANIADAU

- A. **Mae nifer y rhai sy'n cael eu dyfarnu wedi'u nodi ac yn amodol ar argaeledd y gyllideb.** Byddwn yn rhoi blaenoriaeth i'r myfyrwyr hynny ar incwm isaf aelwydydd. Os oes gan ddau neu fwy o fyfyrwyr amgylchiadau ariannol union yr un fath, caiff blaenoriaeth ei phennu gan ddadansoddiad o ddata tariff ymgeiswyr gan dîm yr ysgoloriaeth. Cymerir pwyntiau tariff o raddau Safon Uwch a chymwysterau cyfatebol ac eithrio Bagloriaeth Cymru, Lefel UG a chymhwyster Prosiect Estynedig. Yn ogystal, gellir defnyddio dyddiad derbyn y cwrs a/neu ddyddiad y cais hefyd i flaenoriaethu'r dyraniad.
- B. **Bydd y rhai sy'n gadael gofal a myfyrwyr sydd wedi ymddieithrio** yn derbyn Gwobr Bywyd Astudio yn awtomatig yn eu blwyddyn gyntaf o astudio ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd os yw eu statws myfyriwr sy'n gadael gofal/myfyriwr sydd wedi ymddieithrio wedi'i gadarnhau drwy eu cais Cyllid Myfyrwyr neu gan eu mentor staff (Emma Cook) cyn 14 Medi 2023. Bydd y rhai a gadarnhawyd fel rhai sy'n gadael gofal neu fyfyrwyr sydd wedi ymddieithrio yn ddiweddarach yn cael bwrsariaeth Bywyd Astudio pan fydd arian ar gael gyda gweddill elfennau'r pecynnau bwrsariaeth. **Nodwch, os ydych yn gymwys i gael y dyfarniad Bywyd Astudio ar sail bod yn fyfyriwr sy'n gadael gofal neu'n fyfyriwr sydd wedi ymddieithrio, mae eich cymhwysedd parhaus ar gyfer y dyfarniad Bywyd Astudio yn amodol ar y telerau ac amodau hyn.**
- C. **Anfonir cadarnhad o'r dyfarniad** at fyfyrwyr a aseswyd ac a ddyfarnwyd yn ystod mis Gorffennaf, Awst a Medi. Bydd cyfathrebu yn dibynnu ar y dyddiad yr ydym wedi cael mynediad at y wybodaeth am incwm eich cartref. Os nad ydych wedi derbyn e-bost cadarnhau erbyn 31 Hydref, ystyriwch eich hun yn aflwyddiannus.
- D. Mae'n rhaid i chi **fod wedi cofrestru** ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd i fod â hawl i'r fwrsariaeth:
- I. Os byddwch yn **tynnu'n ôl** o'ch cwrs, bydd pob elfen o'r fwrsariaeth yn dod i ben ar unwaith heb unrhyw bosibilrwydd o adfer yn y dyfodol.
  - II. Os cewch eich **atal dros dro** o'ch astudiaethau, bydd holl elfennau'r fwrsariaeth yn dod i ben ar unwaith. Bydd eich hawl yn cael ei gohirio nes i chi symud ymlaen i'r flwyddyn astudio rifiadol nesaf (ar yr amod eich bod yn parhau i fodloni'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer y dyfarniad). Os na fyddwch yn ailgofrestru yn y flwyddyn academaidd nesaf, ni fydd gennych hawl mwyach i'r fwrsariaeth (e.e. os byddwch yn gohirio eich astudiaethau yn ystod eich ail flwyddyn, mae eich hawl barhaus i'r dyfarniad Bywyd Astudio yn amodol ar i chi gofrestru ym Mlwyddyn 3 yn y flwyddyn ganlynol a bodloni meini prawf cymhwysedd ar gyfer y dyfarniad). Bydd angen i fyfyrwyr sy'n dychwelyd o'r gwaharddiad roi gwybod i Fwrsariaethau ac Ysgoloriaethau ([scholarship@cardiffmet.ac.uk](mailto:scholarship@cardiffmet.ac.uk)) am eu bwriad i ddychwelyd cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd.
  - III. Os byddwch yn **gadael eich gradd israddedig**, ni fydd gennych hawl i'r dyfarniad Bywyd Astudio os byddwch yn dewis ailymuno a chwblhau eich gradd.
  - IV. Os byddwch yn dewis i **drosglwyddo** cwrs o fewn y Brifysgol, rhaid i chi symud ymlaen o un flwyddyn astudio rifiadol i'r un nesaf (ee o 1FT09 i 2FT09) er mwyn cael eich asesu ar gyfer y fwrsariaeth yn y flwyddyn academaidd ganlynol. Rhaid i chi hefyd beidio â throsglwyddo i gwrs a gefnogir gan y GIG ac yn derbyn bwrsariaeth GIG.
- E. Bydd myfyrwyr o **lefel sylfaen i bedwaredd flwyddyn** yn cael eu hystyried ar gyfer y fwrsariaeth. Caniateir pedwaredd flwyddyn i'r rhai sy'n dechrau ar flwyddyn sylfaen neu sy'n astudio cwrs pedair

blynedd. Ni fydd myfyrwyr ar gwrs sy'n **cynnwys blwyddyn lleoliad** yn derbyn y fwsariaeth yn ystod y lleoliad hwnnw.

- F.** Nid oes **angen i chi ailymgeisio** bob blwyddyn. Fodd bynnag, sicrhewch eich bod yn rhoi incwm/manylion ariannol cartref 'Caniatâd i Rannu' fel rhan o'ch cais Cyllid Myfyrwyr bob blwyddyn academaidd.
- I. Mae talu'r dyfarniad yn y blynyddoedd hynny yn dilyn y flwyddyn bresenoldeb gychwynnol yn amodol ar **ddilyniant llwyddiannus i'r flwyddyn astudio rifiadol nesaf (e.e. o 0FT09 i 1FT09) a bodloni'r meini prawf o flwyddyn** i flwyddyn. Ni fydd myfyrwyr sy'n ailsefyll yn cael eu hasesu ar gyfer y fwsariaeth nes iddynt symud ymlaen i'r flwyddyn ganlynol. Bydd myfyrwyr sydd ag amgylchiadau lliniarol llawn ar gyfer pob credyd ailsefyll yn cael eu hystyried ar gyfer bwrsariaeth Bywyd Astudio ac, os yw'n gymwys, bydd eu bwrsariaeth Bywyd Astudio yn cael ei chyhoeddi unwaith y bydd y Bwrdd Arholi yn cadarnhau'r wybodaeth. Os ydych yn ailsefyll a pheidio â mynychu'r Brifysgol yn y flwyddyn academaidd honno, ni fydd gennych hawl i fwsariaeth Bywyd Astudio.

## **GWOBRAU**

Cyfanswm gwerth y dyfarniad yw **hyd at £950** y flwyddyn.

Unwaith y bydd y bwrsariaethau wedi'u dyrannu a'u cyfleu i fyfyrwyr (heb fod yn hwyrach na'r 30 Medi), bydd [studylife@cardiffmet.ac.uk](mailto:studylife@cardiffmet.ac.uk) gyda manylion am eich pecyn gwobr.

Dim ond unwaith y byddwch wedi cofrestru'n llwyddiannus ar eich cwrs gradd amser llawn y gellir talu a darparu'r elfennau dyfarnu unigol, ac unwaith y bydd eich cwrs wedi dechrau.

**Os nad oes yr un o elfennau cydrannol y Fwsariaeth Bywyd Astudio wedi'u actifadu erbyn 1 Rhagfyr 2023, bydd y cynnig bwrsariaeth yn cael ei aildrefnu a'i ail-ddyrannu i fyfyrwr arall.**

## **3. AIL-DDYRANIADAU**

- Er mwyn darparu ar gyfer blynyddoedd sy'n datblygu, os bydd pecynnau ar gael byddwn yn ystyried **myfyrwyr Blwyddyn 2 a 3** ar gyfer y dyfarniad
- Bydd myfyrwyr sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd ond nad ydynt wedi cael cynnig y fwsariaeth yn cael eu cynnwys ar restraros.
- **Mae argaeledd yn gyfyngedig** ac yn uniongyrchol gysylltiedig â nifer y myfyrwyr a ddyfernir sy'n tynnu'n ôl/atal o'u cwrs yn ystod y tymor cyntaf. Bydd ail-ddyraniadau'n cael eu gwneud pan fydd dyfarniad ar gael. **Byddwch yn cael y lwfans dyfarnu sy'n weddill am y flwyddyn.**
- **Os ydych ar y rhestr aros, gwnewch ddarpariaeth ariannol i dalu am eich costau byw gan na allwn warantu y byddwch yn cael dyfarniad.**

## **4. CYFYNGIADAU**

- Ar ôl i chi gofrestru, anfonir unrhyw ohebiaeth fwsariaeth at eich **cyfeiriad e-bost myfyriwr.**
- **Ni ellir cario lwfansau bwrsariaethau ymlaen o un flwyddyn i'r llall.** Os na fyddwch wedi hawlio elfennau cydrannol y wobwr Bywyd Astudio erbyn diwedd y flwyddyn academaidd (os na fydd unrhyw

derfyn amser penodol arall i hawlio wedi'i hysbysebu) yna ni ellir hawlio'r elfen honno yn dilyn diwedd y flwyddyn academaidd.

- Nid yw myfyrwyr sy'n derbyn **bwrsariaeth GIG yn gymwys** ar gyfer y wobr Bywyd Astudio.
- Nid yw'r fwsariaeth hon **ar gael os ydych yn astudio yn y coleg masnachfrait**. Cysylltwch â'ch coleg lleol i drafod bwrsariaethau ac ysgoloriaethau sydd ar gael.
- **Ni ellir trosglwyddo** elfennau gwerth cysylltiedig y dyfarniad. Pecyn dyfarnu ar y campws yw hwn, ac ni fydd cyfnodau o amser a gaiff eu treulio oddi ar y campws, er enghraifft ar gyfer lleoliadau cwrs, yn cymhwyso myfyriwr i drosglwyddo gwerth cysylltiedig elfen o'r dyfarniad Bywyd Astudio. Fodd bynnag, cysylltwch â'r Tîm Bywyd Astudio ([studylife@cardiffmet.ac.uk](mailto:studylife@cardiffmet.ac.uk)) os oes amgylchiadau eithriadol o ran pam na allwch gyrchu eich pecyn dyfarnu Bywyd Astudio ar y campws.